Cofnodion **CYFARFOD BLYNYDDOL y CYNGOR** a gynhaliwyd ddydd Mercher, 20 Mai 2026, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Alexander Walker (Maer)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, S. Feeney, A. R. James, C. L. Jones, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, W. Price, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford a Miss C. L. Williams.

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

## 1. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Dechreuodd y Maer y cyfarfod drwy arwain y rhai a oedd yn dymuno cymryd rhan i adrodd gweddi'r Arglwydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Walker at farwolaeth diweddar cyn Gynghorydd Tref a Chaplan y Maer, y Parchedig Stanley Walker, a rhyddfreiniwr anrhydeddus, Mrs Jean Frost MBE. Safodd pawb yn y cyfarfod mewn distawrwydd er cof amdanynt.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs S. L. Connolly, Mrs J. M. Evans, J. Kenney, Mrs D. L. King, Ms R. S. Roberts a D. Simmons.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol neu fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. ETHOL CYNGHORYDD CYMUNED

Hysbysodd Clerc y Dref y byddai etholiad yn cael ei gynnal ar 25 Mehefin i lenwi'r swydd wag cynghorydd cymuned ward Derwen.

## 4. ETHOL MAER A'I SEFYDLU

Cyflwynodd y Cynghorydd Walker grynodeb o'i flwyddyn fel Maer i'r cyfarfod, gan nodi pa mor gyflym yr aeth y cyfnod ac yn gobeithio, fel Maer ieuengaf y dref, ei fod wedi dangos i bobl ifanc eraill nad yw oedran yn rhwystr i gymryd rhan mewn llywodraeth leol sy'n ganolog i ddatblygiad ein cymunedau.

Cyfeiriodd at y digwyddiadau eithriadol sy'n dangos y balchder dinesig yn ein tref – Sul y Cofio, diwrnod dirdynnol sy'n dod â'r gymuned ynghyd i ddiolch i'r rhai a roddodd eu bywydau i amddiffyn eu gwlad, a Gwasanaeth Dinesig y dref,

sy'n dod â'r gymuned, arweinyddion eraill a chynghorwyr ynghyd i atgoffa am y rhai sy'n gwasanaethu eraill yn wirfoddol. Dro ar ôl tro, pobl yn rhoi o'u hamser i helpu eraill yn eu cyfnodau anoddaf a'u cyfnodau gorau. Nododd Gwasanaeth y Bad Achub fel enghraifft glir, yn dilyn bod yn ffodus i fynd i ddau o'u digwyddiadau, gael taith o amgylch yr orsaf a chefnogi'r nofio rhynllyd ar ddydd San Steffan. Yn ogystal â'r hwyl a'r cyfeillgarwch mae'n dangos ymrwymiad anhygoel y gwirfoddolwyr sy'n helpu'r rhai mewn trallod, ac yn achub bywydau yn y broses mewn sawl achos.

Roedd yn falch o gael y cyfle i hyrwyddo ei ddwy elusen, Clwb Cerddoriaeth y Rhyl a Mind Dyffryn Clwyd, y mae eu gwaith yn parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i lawer o bobl.

I gloi, mynegodd ei ddiolch i'w gyd-gynghorwyr a phawb a oedd wedi'i gefnogi yn ystod blwyddyn ddiffiniol.

Yna gwahoddodd y Maer enwebiadau i ethol Maer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/27.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor enwebu'r Cynghorydd Mrs Joan Butterfield YH MBE.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *ethol y Cynghorydd Butterfield YH MBE.*

Yna gwnaeth y Maer a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Walker, roi Cadwyn y Maer i'r Cynghorydd Butterfield a rhoi anrheg bychan iddi hefyd.

Darllenodd y Cynghorydd Butterfield ddatganiad y swydd a'i lofnodi.

Diolchodd y Maer newydd i'w chynigydd a'i eilydd am eu henwebiadau a'u geiriau caredig, gan gadarnhau mai ei chaplan yn ystod y flwyddyn fyddai'r Parchedig Janet Crane, ei chonsort fyddai Mr David Turner a diolchodd i'r ddau am eu harweiniad, eu cymorth a'u cefnogaeth.

Yna cydnabu'r Maer wasanaeth y Maer a oedd yn ymddeol, gan gyflwyno arfbais y dref, medal cyn faer ac anrheg bychan iddo.

Pwysleisiodd, er mai dyma ei thrydydd tro fel Maer, roedd yn parhau i fod yn anrhydedd mawr i gynrychioli ein tref ac roedd hi'n falch o gefnogi tair elusen: Cadetiaid y Môr y Rhyl, Rhyl sy'n Deall Dementia a Grŵp Sgowtiaid 1af y Rhyl. Maent yn gwasanaethu unigolion o bob oed ac yn adlewyrchu pwysigrwydd cefnogi pob rhan o'n cymuned.

Esboniodd mai thema ei blwyddyn fel Maer fyddai cydlynid – dod â chymunedau, sefydliadau ac unigolion at ei gilydd er budd pawb. Gweithio gyda'n gilydd i greu Rhyl gryfach a gwydnach, i roi mwy o gymorth i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yma. Pwysleisiodd fod gennym ni, fel Cyngor, swyddogaeth bwysig yn gwrando ar drigolion, yn hyrwyddo eu dyheadau a chefnogi'r sefydliadau sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth yn lleol, a nododd y byddai ymgysylltu â phobl ifanc yn flaenoriaeth arbennig iddi.

I gloi, dywedodd y Maer ei bod wedi gweld newidiadau arwyddocaol yn ystod ei chyfnod fel cynghorydd tref am fwy na 40 o flynyddoedd, a bod y Rhyl wedi

parhau'n wydn ac yn obeithiol yn wyneb pob her ac roedd yn ddiolchgar yn yr ymddiriedaeth a ddangoswyd ynddi i gynrychioli'r dref unwaith eto.

Yna gwnaeth y Maer a oedd yn ymddeol gyflwyno Consort y Maer newydd gyda bathodyn y swydd ac anrheg bychan.

## 5. ETHOL DIRPRWY FAER

Yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch penodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau i ethol Dirprwy Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/27.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd K. R. Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE enwebu'r Cynghorydd Will Price.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Price.*

Cyflwynodd y Maer gadwyn y Dirprwy Faer i'r Cynghorydd Price a rhoi anrheg bychan iddo cyn ei wahodd i lofnodi datganiad y swydd.

Ar ôl cwblhau hyn diolchodd y Dirprwy Faer i'r Cynghorwyr Jones a Butterfield am eu henwebiadau a chynghorodd mai ei Gonsort fyddai'r Cynghorydd Mrs Michelle Blakeley-Walker.

Cyflwynodd y Maer fathodyn y swydd ac anrheg bychan i'r Cynghorydd Blakeley-Walker.

## 6. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a chyfarfod ei bwyllgor i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 15 Ebrill 2026 - Cofnodion rhifau 173-187

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. Walker ac eiliwyd gan y Cynghorydd E.M. Chard, a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 15 Ebrill 2026 - Cofnodion rhifau 42 - 46

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James, a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

## 7. PENODI AELODAU PWYLLGORAU / IS-BWYLLGORAU / LLYWODRAETHWYR YSGOL AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2026/27

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r penodiadau fel y dangoswyd yn y tabl (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a ***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r penodiadau.*

**8.** **<u>ETHOL CADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL</u>**

Yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch penodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/2027.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams benodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *ethol y Cynghorydd Rutherford.*

**9.** **<u>ETHOL IS-GADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL</u>**

Yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch penodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/2027.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A.J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J.L. Mc Alpine benodi'r Cynghorydd B. Mellor.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *ethol y Cynghorydd Mellor.*

**10.** **<u>ETHOL CADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO</u>**

Yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch penodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/2027.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd K. R. Jones benodi'r Cynghorydd Ms J. L. McAlpine.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *penodi'r Cynghorydd McAlpine.*

**11.** **<u>ETHOL IS-GADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO</u>**

Yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch penodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/2027.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. Williams benodi'r Cynghorydd D. Simmons.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *ethol y Cynghorydd Simmons.*

**12.** **<u>ETHOL CADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL</u>**

Yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch penodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/2027.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs V. Roberts benodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Rutherford.*

## 13. ETHOL IS-GADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL

Yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch penodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/2027.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker benodi'r Cynghorydd A. R. James.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd James.*

## 14. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR SEFYDLIADAU ALLANOL / GRWPIAU PARTNERIAETH

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r penodiadau ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/27, fel y dangoswyd yn y rhestr (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford a ***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r penodiadau.*

## 15. DYNODI DYLETSWYDDAU CYMERADWY

Gofynnodd y Maer am gadarnhau fod cynrychiolwyr a benodwyd yn mynd i'r isod:

- Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Cyngor a'i bwyllgorau sefydlog
- Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (a'r Pwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol cysylltiedig)
- Sir Ddinbych Gynaliadwy
- Grŵp Cyfeirio Prosiect Gogledd Sir Ddinbych Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Maer neu'r Dirpwy Faer yn bresennol mewn digwyddiadau dinesig yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Chonwy.

yn cael eu dynodi fel dyletswyddau cymeradwy.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r dyletswyddau cymeradwy.*

## 16. AMSERLEN CYFARFODYDD (2026/27)

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau amserlen y cyfarfodydd ym mlwyddyn ddinesig 2026/27 fel y dangoswyd yn y rhestr (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs V. Roberts ac eiliwyd gan y Cynghorydd K. R. Jones a ***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r amserlen.*

**17. LLOFNODWYR (2026/27)**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau llofnodwyr cyfrifon cyfredol a chyfrifon buddsoddi'r Cyngor Tref ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/27.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams gadarnhau'r llofnodwyr fel:

Y Maer a'r Dirprwy Faer, fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol

Ynghyd ag un o'r swyddogion a ganlyn:

Clerc y Dref
Dirprwy Glerc y Dref
Y Swyddog Cyllid

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r llofnodwyr.*

**18. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: ……………..………..